VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Vale Homes
Safe in our hands
Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

# CARTREFI'R FRO |

## STRATEGAETH YMGYSYLLTU TENANTIAID A LESDDEILIAID

**2022 | 2025**



# CYNNWYS

1. Cyflwyniad a phwrpas y strategaeth

2. Y Cyd-destun strategol

3. Cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill

4. CCBG (SWOT)

5. Barn Preswylwyr

6. Fframweithiau presennol ar gyfer ymgysylltu

7. Cymorth ariannol

8. Amcanion

# CYFLWYNIAD A PHWRPAS Y STRATEGAETH

Mae cyfranogiad neu ymgysylltiad tenantiaid yn broses sy'n cynnwys dod â thenantiaid, lesddeiliaid a landlordiaid at ei gilydd i gydweithio a rhannu syniadau i gyd-greu gwell gwasanaethau a dod i benderfyniadau ar wella safonau ac amodau gwasanaethau tai. Mae hyn yn cynnwys sut mae arian yn cael ei wario, sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a sut y gwneir penderfyniadau.

Mae'r broses hon yn cynnwys rhoi'r defnyddwyr gwasanaeth yng nghanol y llwyfan. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth o'n safbwynt ni yn cwmpasu Tenantiaid a Lesddeiliaid, mae eiddo Lesddeiliaid yn bodoli ochr yn ochr â gosodiadau tai cymdeithasol, bydd ein strategaeth yn sicrhau bod anghenion a barn y ddwy garfan o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried. Mae Cartrefi'r Fro wedi ymrwymo i gyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid ac mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid flaenorol.

Wrth ddatblygu'r strategaeth newydd hon, rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid 2017 - 2020, gan edrych ar y llwyddiannau hyd yma a'r meysydd sy'n gofyn am ymyrraeth fwy penodol i sicrhau effaith a dangos lefelau uchel o ymgysylltu/cyfranogiad a dylanwad gan denantiaid.

Roedd ein hadolygiad yn cynnwys ymgynghori â staff a thenantiaid yn ogystal â defnyddio data o ganlyniadau arolwg STAR o foddhad tenantiaid. Ystyriodd yr adolygiad hefyd, y cyd-destun amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol, economaidd, technolegol, ariannol a gwleidyddol a allai fod â goblygiadau o ran bwrw ymlaen â'r strategaeth newydd hon.

O safbwynt allanol, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ymarfer sy'n dod i'r amlwg yn y cyd-destun tai ac yn arbennig i wersi sy'n dod gan:

- Adolygiad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o gynnwys tenantiaid a'u model ar gyfer cynnwys tenantiaid mewn modd da - "ffframwaith y Pethau Cywir"
- Y goblygiadau ehangach o bandemig Covid yn ein hymagwedd tuag at ymgysylltu â thenantiaid a'r angen i ddatblygu opsiynau ymgysylltu digidol yn ogystal â'r
- Gwersi sy'n dod i'r amlwg o drasiedi Tŵr Grenfell a phwysigrwydd sicrhau bod llais y tenant yn cael ei glywed

Gan ystyried yr oll uchod, rydym wedi datblygu ein gweledigaeth ar gyfer ymgysylltu â'n tenantiaid.

## Ein gweledigaeth yw:

*"Creu diwylliant lle rydym yn datblygu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i denantiaid a lesddeiliaid gyfrannu at greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid a lesddeiliaid"*



Vale Homes
Safe in our hands
Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

"CREU DIWYLLIANT LLE RYDYM YN DATBLYGU AC YN MANTEISIO I'R EITHAF AR Y CYFLEOEDD I DENANTIAID A LESDDEILIAID GYFRANNU AT GREU GWASANAETHAU SY'N CANOLBWYNTIO AR DENANTIAID A LESDDEILIAID"

# Y CYD-DESTUN STRATEGOL

**YN 2007 DATBLYGWYD Y STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID GENEDLAETHOL GYNTAF GAN LYWODRAETH CYMRU A OEDD YN MANDADU POB LANDLORD CYMDEITHASOL I DDATBLYGU EU STRATEGAETHAU CYFRANOGIAD TENANTIAID LLEOL EU HUNAIN I HYRWYDDO CYFRANOGIAD TENANTIAID.**

Dyma'r 4edd strategaeth cyfranogiad tenantiaid Cartrefi'r Fro o'r bron; mae pob strategaeth wedi'i hadeiladu ar sylfeini'r rhai blaenorol a'r arfer sy'n dod i'r amlwg yn y sector a thrwy hynny adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd a'r sylfeini cadarn a osodwyd eisoes.

Mae'r gwaith y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, a gynhaliodd adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru yn 2019, yn ei wneud yn berthnasol i ddatblygu'r strategaeth hon, ac a ddarparodd fframwaith lefel uchel ar gyfer cynnwys preswylwyr - o'r enw y Pethau Cywir ('Right Stuff').

Wrth ddatblygu ein strategaeth newydd, rydym wedi ystyried y gwaith hwn - sy'n pwysleisio bod llais y tenant i gael ei glywed ac sy'n canolbwyntio ar bum thema sy'n cynnwys:

### Y BOBL IAWN

- Sgiliau - gwybodaeth
- Amrywiaeth/Cynwysoldeb
- Meddylfryd
- Recriwtio/arfarnu a
- Gwaith tîm a rapport

### GWNEUD Y PETH IAWN

- Cyfleoedd a dulliau cynnwys
- Bod â phwrpas wedi'i alinio'n glir
- Gwrando gweithredol
- Gweithredu ar y gwrando a
- Chynnig tystiolaeth o ddylanwad tenantiaid wrth wneud penderfyniadau

### YN Y FFORDD GYWIR

- Diwylliant
- Laith
- Perthnasoedd
- Ymddygiadau
- Cynnig ystod lawn o opsiynau,
- Mynediad llawn at wybodaeth angenrheidiol a
- Chymeradwyaeth lawn i unrhyw newidiadau sylweddol

### AM Y RHESYMAU CYWIR

- Eglurder pwrpas
- Y canlyniadau a ddymunir
- Eglurder o ran moeseg Gwerthoedd / Ethos: ymddiriedaeth / bod yn agored / gonestrwydd / parch

### AR YR AMSER CYWIR

- Ymglymiad cynnar
- Cyflawni'r canlyniadau a ddymunir,
- Monitro cynnydd ac adolygu effeithiolrwydd a
- Chasglu adborth

Ar ôl ystyried hyn, mae'r strategaeth hon yn cwmpasu pob un o'r pum elfen ac fel rhan o'r strategaeth hon o dan bob un o'r themâu rydym yn ymrwymo i:




## Y BOBL IAWN

Mynd ati i gefnogi recriwtio tenantiaid a lesddeiliaid newydd a darparu seilwaith cymorth a hyfforddiant ar gyfer sefydlu a datblygu parhaus





## GWNEUD Y PETH IAWN

Darparu ystod o gyfleoedd i gymryd rhan sy'n gysylltiedig â'n diben o greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid a lesddeiliaid, gan sicrhau ein bod yn gwrando'n weithredol, yn gweithredu ar farn ein defnyddwyr gwasanaeth a dangos effaith y dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau




## YN Y FFORDD IAWN

Creu diwylliant agored ar gyfer cymryd rhan, gan gynnwys rhoi sylw i iaith ac ymddygiad a chynnig opsiynau llawn ar gyfer dylanwadu




## AM Y RHESYMAU CYWIR

Bod â phwrpas a chanlyniadau a ddymunir wedi'u diffinio'n glir fel rhan o'n strategaeth newydd




## AR YR ADEG IAWN

Sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i gymryd rhan yn gynnar a datblygu adolygiad monitro effeithiol a diwylliant gwelliant parhaus

# CYSYLLTIADAU Â STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU CORFFORAETHOL ERAILL


**Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd yn gorfforaethol â gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer Cymunedau'r Fro a Chynllun Corfforaethol y Cyngor a'i amcanion, gweledigaeth y Cynghorau yw datblygu 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'.**

Mae'r weledigaeth hon yn cwmpasu'r pedwar amcan llesiant newydd sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Amcanion llesiant y Cyngor yw:

- Gweithio gyda, a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Y 7 nod llesiant fel y'u nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw datblygu:




Mae i'r strategaeth hon berthnasedd uniongyrchol i 3 o'r amcanion llesiant, gan fod y gwaith y byddwn yn ei wneud dros y 3 blynedd nesaf yn ategu'r amcanion hyn:

> "Gweithio gyda, a thros ein cymunedau"
> "I gefnogi dysgu" a
> "I gynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned"

At hynny, mae yna nifer o nodau llesiant yn gysylltiedig â'r gwaith yr ydym yn bwrw iddi yn y strategaeth hon, yr un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith hwn sef datblygu Cymru o gymunedau mwy cydlynus.

**Yn ogystal, wrth galon y strategaeth hon ymgorfforwyd y pum ffordd o weithio a fabwysiadwyd gan y Cyngor sy'n cynnwys:**

## Hirdymor



Edrych ar faterion cyfranogiad tenantiaid a lesddeiliaid o **bersbectif hirdymor** gan ystyried, nid yn unig faterion cyfredol ond yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol a datblygu gweithgareddau cynnwys pobl sydd nid yn unig yn addas i'r diben heddiw ond hefyd yn cofleidio dysgu a thechnoleg newydd fel y gall mwy o drigolion gymryd rhan yn y tymor hir.

## Ymwneud



Mae cyfranogiad **effeithiol** yn ganolog i'r strategaeth hon ac i ddangos effaith a dylanwad y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau a phenderfyniadau, byddwn yn cynhyrchu cyhoeddiad o'r enw "dwedoch chi ac fe wnaethon ni"

## Integreiddio



Er mwyn sicrhau bod gwell **Integreiddiad** ac alinio ar waith Cyfranogiad Tenantiaid (CT) yn y Fro, byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n strwythur cynnwys presennol i weld sut y gellir integreiddio CT yn well.

## Atal



Bydd cymryd ymagwedd ragweithiol at ein gwaith Cyfranogiad Tenantiaid a chynnal ymarfer gwerth am arian ar gyfranogiad effeithiol yn golygu **Atal** a bydd yr angen i fynd i'r afael â gwreiddiau problemau yn flaenllaw yn ein ffordd o feddwl.

## Cydweithrediad



Yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei ddatblygu mae **Cydweithredu** a chyd-gynhyrchu datrysiadau nid yn unig gyda'n tenantiaid a'n lesddeiliaid ond hefyd gyda staff. Er mwyn creu'r amodau a'r diwylliant cywir i hyn ddigwydd, bydd camau gweithredu allweddol o fewn y strategaeth hon i'w gweld er mwyn sicrhau bod y diwylliant cywir ar waith ar gyfer cydweithredu.

## Gwerthoedd y Cyngor yw:

# UCHELGEISIOL

Meddwl gyda golwg ar y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

# AGORED

Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau yr ydyn ni'n eu gwneud.

# GYDA'N GILYDD

Gweithio gyda'n gilydd fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a phartneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon.

# BALCH

Balch o wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

Mae pob un o'r gwerthoedd hyn wedi'u hymgorffori yn y camau yr ydym wedi'u dwyn ynghyd i wireddu gweledigaeth ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid.

Bydd datblygu'r Strategaeth Buddsoddi Cymunedol newydd a arweinir gan Cartrefi'r Fro hefyd yn ategu'r strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid, gan ychwanegu gwerth at y cymorth a gynigiwn i'n trigolion a'n cymunedau.

# CCBG (SWOT)

## Cyn llunio ein strategaeth newydd, roedd yn bwysig myfyrio a gweld lle'r oedd ein Cryfderau, ein Cyfleoedd, ein Bygythiadau a'n Gwendidau i fesur pa gamau y dylem eu cymryd.

**Mae ein Cryfderau'n cynnwys:**

- Grwpiau hirsefydlog o denantiaid a phreswylwyr sefydledig
- Nifer ymrwymedig o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n rhoi o'u hamser i gyfrannu at CT
- Mae'r Gweithgor a'r Fforwm Ansawdd Dylunio wedi cyflawni cryn dipyn
- Ymrwymiad Cartrefi'r Fro i CT
- Cyllideb fawr sy'n cefnogi gweithgarwch CT
- Nifer o adeiladau/gofod cymunedol ar gael i gynnal cyfarfodydd
- Cyfathrebu agored, gonest a da a chysylltiadau gweithio â thenantiaid sy'n ymgysylltu
- Yr Ŵyl Flynyddol, digwyddiad sydd wedi'i hen sefydlu, wedi'i gefnogi'n dda - sy'n tynnu tenantiaid ymgysylltiedig i mewn yn ogystal â rhai nad sydd
- Staff ymroddedig a rhagweithiol sy'n gweithio yn y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn

> **Mae un o lwyddiannau allweddol** ein strategaeth cyfranogiad tenantiaid bresennol yn cynnwys y gallu i barhau i gadw'r tenantiaid presennol sy'n rhan o'n gwaith cyfranogi yn ymgysylltiedig.
>
> Mae angen i ni adeiladu ar hyn a chanfod sut rydym yn defnyddio ein sylfaen bresennol i ddatblygu grŵp mwy amrywiol o drigolion sy'n ymwneud â'n strwythurau CT –
>
> ein nod yw cefnogi'r tenantiaid presennol i weithredu fel llysgenhadon er mwyn helpu i ddod â phreswylwyr newydd i mewn drwy roi cymorth i'r aelodau sefydledig

**Mae ein Gwendidau'n cynnwys:**

- Cylchlythyrau wedi'u gohirio/stopio ac ni anfonwyd unrhyw ohebiaeth reolaidd at denantiaid
- Yr un bobl mewn gwahanol grwpiau
- Angen eglurder ar rolau aelodau staff a'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran CT
- Sicrhau bod CT yn cael ei brif ffrydio, a'i fod yn wirioneddol yn dod yn rôl i bawb
- ychydig o ymgysylltu ffurfiol sydd â lesddeiliaid

**UN O'N GWENDIDAU ALLWEDDOL** yw bod angen mwy o aliniad rhwng y timau mewnol er mwyn darparu gwell gwasanaeth cynnwys tenantiaid,

**rydym wedi datblygu gweithgor trawsadrannol mewnol a fydd yn rhannu perchnogaeth o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth newydd hon a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.**

### Ymhlith ein Cyfleoedd y mae:

- Ailgyflwyno cylchlythyrau rheolaidd, gellid anfon cylchlythyrau drwy e-bost i leihau costau
- Egluro'r hyn a ddisgwylir gan swyddogion o ran CT, er mwyn helpu i wella'r modd y darperir CT wrth symud ymlaen
- Creu gwell aliniad a synergedd mewnol i wella gwaith CT
- Gwneud defnydd gweithredol o dudalennau gwe Cartrefi'r Fro a datblygu gwell presenoldeb ar y we.
- Hyfforddi'r holl staff ar CT
- Darparu cymorth er mwyn helpu tenantiaid i fynd ar-lein i ganiatáu cyfranogiad Digidol gan Denantiaid
- Cymryd camau er mwyn cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, fel pobl Iau, yr Anabl / teuluoedd a theuluoedd BME.
- Monitro cost ac os yw gweithgarwch CT yn effeithiol.
- Rhoi eglurder ynghylch pa gymorth ac arian y gall grwpiau wneud cais amdanynt

**UN CYFLE ALLWEDDOL** rydym am fanteisio arno yw'r angen i gael cyd-ddealltwriaeth glir o'r broses a'r gweithdrefnau o ran CT i fynd i'r afael â hyn,

**byddwn yn adnewyddu ac yn ail-drefnu ein Cyfamod Tenantiaid, dogfen allweddol a gymeradwywyd gan ein Cynghorwyr yn rhoi eglurder ar y cymorth a gynigiwn, yn ariannol ac heb fod yn ariannol i denantiaid a phreswylwyr gan roi eglurder i staff, preswylwyr ac aelodau a rhanddeiliaid.**

### Mae ein Bygythiadau'n Cynnwys

- Gostyngiadau posibl i gyllidebau
- Yr angen i gynllunio olyniaeth - mae grwpiau wedi do di ben a byddant yn dal i wneud gan eu bod yn cael eu cefnogi'n bennaf gan garfan hŷn o drigolion, mae marwolaethau diweddar nifer o drigolion ar bwyllgorau wedi golygu bod rolau'n dal yn wag ac heb gael eu llenwi
- Mae'r analluu i gwrdd yn ystod Covid wedi golygu na fu fawr ddim gweithgarwch, bydd brwdfrydedd yn cael ei golli os bydd y cyfyngiadau'n parhau - mae angen ar frys i ystyried ffyrdd eraill o gwrdd - gan gynnwys cofleidio Zoom a Teams i hwyluso cyfarfodydd drwy ddulliau newydd.

**Un bygythiad allweddol** yw'r angen i ddatblygu seilwaith ymgysylltu digidol, mae'r pandemig wedi amlygu'r modd y mae'r dulliau traddodiadol o gynnwys tenantiaid mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi golygu nad ydym wedi sefydlu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso cyfranogiad digidol.

Byddwn fel rhan o'r strategaeth newydd hon yn cymryd camau i ddatblygu ein llwyfannau ymgysylltu digidol, nid yn unig drwy roi'r set sgiliau i'n haelodau staff ond drwy roi'r hyn sydd eu hangen ar waith i helpu cyfranogiad digidol a hefyd i adeiladu rhaglen hyfforddi ar gyfer tenantiaid a lesddeiliaid a allai ei chael yn anodd ymgysylltu'n ddigidol, creu synergedd rhwng ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid a'n Strategaeth Cynnwys y Gymuned.



Vale Homes
Safe in our hands
Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

MAE EIN CYNLLUN GWEITHREDU YN CYSYLLTU'N UNIONGYRCHOL Â PHOB UN O'R MATERION A GODWYD YMA AC MAE NAILL AI'N MYND I'R AFAEL Â HWY GYDA CHAMAU I'W CYMRYD NEU'N GWELLA'R HYN SYDD EISOES YN GWEITHIO. YN OGYSTAL Â'R YMARFER CCBG (SWOT) HWN, YSTYRIWYD BARN PRESWYLWYR DRWY GYFRES O AROLYGON.

# BARN PRESWYLWYR

## Er bod ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid yn cwmpasu'r hyn y dymuna Cartrefi'r Fro fel landlord ei gyflawni ar gyfer ei ddefnyddwyr gwasanaeth, mae hefyd yn cynnwys yr hyn a ddymuna defnyddwyr gwasanaeth

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon, rydym yn defnyddio canlyniadau 4 arolwg, mae'r rhain yn cynnwys:

1. Arolwg Boddhad STAR - arolwg ar raddfa eang a anfonwyd at yr holl breswylwyr sy'n cwmpasu nifer o wasanaethau o fewn tai
2. Arolwg a gynhaliwyd gyda'r holl breswylwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch CT ar hyn o bryd
3. Arolwg pellach a gynhaliwyd gyda'r holl breswylwyr sy'n ymwneud â CT ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar fynediad digidol a chyfranogiad
4. A chanlyniadau cychwynnol ein rhaglen proffilio tenantiaid

### Arolygon Boddhad STAR

Anfonwyd arolwg STAR at holl drigolion Cartrefi'r Fro a derbyniwyd ymateb gan 37% sy'n cyfateb i 1,392 o aelwydydd. Mae 3 canlyniad allweddol yn berthnasol i'r strategaeth hon




gwelwyd cynnydd o 3% sef o 81% i 84%.

gwelwyd gostyngiad o 7% sef o 73% i 66%


gwelwyd gostyngiad o 8% sef o 78% i 70%.

**Bydd y strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid newydd hon yn ceisio gwella boddhad ym mhob un o'r 3 maes canlyniad allweddol ac mae camau gweithredu allweddol o ran sut y byddwn yn gwneud hyn wedi'u rhestru yn y cynllun gweithredu.**

## Arolwg a gynhaliwyd gyda'r holl breswylwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch CT ar hyn o bryd


Nod yr arolwg hwn oedd sefydlu llinell sylfaen o bwy sy'n ymwneud â gweithgarwch CT yn y Fro ar hyn o bryd, am ba hyd y maent wedi ymwneud, eu hoedran, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hyfforddiant, eu gwybodaeth am y Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid (GCCT) ac a ydynt yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau

### ER FAINT YDYCH CHI WEDI BOD YN YMWNEUD?





Yn seiliedig ar yr ymatebion, mae'n amlwg nad yw Cartrefi'r Fro wedi recriwtio unrhyw aelodau CT newydd dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae'r rhan fwyaf o aelodau wedi bod ymwneud ers 4 blynedd neu fwy.

### I BA GRŴP OEDRAN YDYCH CHI'N PERTHYN?





Mae dros **74**% o denantiaid sy'n cymryd rhan dros 65 oed – heb unrhyw aelodau yn y garfan rhwng 18 a 34 oed. Nodwyd camau gweithredu yng nghynllun gweithredu'r strategaeth i weithio'n weithredol er mwyn lleihau oedran cyfartalog Tenantiaid sy'n ymwneud â CT yn y Fro.

### BETH YW EICH TRAS ETHNIG?





Mae dros **89**% o'r ymatebwyr sy'n ymwneud â CT yn dod o gefndir Gwyn heb unrhyw un o gefndir Asiaidd, efallai bod hyn yn adlewyrchu demograffeg y Fro, ond bydd camau gweithredu fel rhan o'r strategaeth yn ceisio cynyddu amrywiaeth yr aelodaeth.

## BETH YW EICH CYFEIRIADEDD RHYWIOL?





Mae'r rhan fwyaf o'r trigolion sy'n cymryd rhan yn dod o gyfeiriadedd heterorywiol – er ei bod bob amser yn anodd casglu'r wybodaeth hon, fe fyddwn yn parhau i geisio ei gasglu i adeiladu ar y data sylfaenol hwn er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod strwythurau CT yn hygyrch i bawb.

## A YDYCH WEDI YMGYMRYD AG UNRHYW HYFFORDDIANT SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R RÔL RYDYCH YN EI CHYFLAWNI FEL RHAN O FFDA(QDF), GWEITHGOR(WG) NEU TRAS?





Mae canran fawr o breswylwyr sy'n ymgysylltu, dros **73**% heb gael unrhyw hyfforddiant sy'n gysylltiedig â CT i gyflawni eu rôl, bydd hwn yn fater allweddol a fydd yn cael ei godi fel rhan o'r cynllun gweithredu, gan sicrhau bod gan denantiaid y sgiliau hyfforddi a'r gefnogaeth i fwrw ymlaen â'u rolau CT.

## YDYCH CHI'N DEALL RÔL Y GWASANAETH CYNGHORI CYFRANOGIAD TENANTIAID (GCCT) WRTH GEFNOGI CYFRANOGIAD TENANTIAID?




Mae'n bwysig bod y rhai sy'n ymwneud â strwythur cynnwys CT yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt nid yn unig drwy Gartrefi'r Fro ond hefyd drwy sianeli eraill, mae hyn yn cynnwys tenantiaid yn meddu ar ddealltwriaeth o rôl Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru). Mae Cartrefi'r Fro yn talu ffi aelodaeth flynyddol ac mae ystod eang o hyfforddiant yn rhad ac am ddim gyda'r aelodaeth honno y gellir ei defnyddio i gefnogi datblygiad preswylwyr. Mae'n amlwg nad oedd gan hyd at **40**% o'r tenantiaid a ymgysylltwyd unrhyw ddealltwriaeth o rôl GCCT. Bydd camau gweithredu o fewn y strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â hyn dros y tymor 3 blynedd nesaf.


## YDYCH CHI'N TEIMLO EICH BOD YN GALLU DYLANWADU AR BENDERFYNIADAU A BOD EICH LLAIS YN CAEL EI GLYWED?




Un o ddangosyddion allweddol llwyddiant gweithgarwch CT yw mesur a yw tenantiaid yn teimlo eu bod wedi gallu dylanwadu ar benderfyniadau - mae canran uchel o denantiaid yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu, unwaith eto byddwn yn ceisio monitro'r wybodaeth sylfaenol, gyda'r bwriad o geisio cynnydd ar ddiwedd tymor y strategaeth newydd hon


## AROLWG WEDI EI GYNNAL GYDA'R HOLL DRIGOLION SY'N YMWNEUD Â CT AR HYN O BRYD YN CANOLBWYNTIO AR FYNEDIAD DIGIDOL AC I YMGYSYLLTU'N DDIGIDOL Â CT.

Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i ystyried gwahanol ffyrdd o weithio – roedd hyn hefyd yn cynnwys ystyried sut rydym yn darparu cymorth CT wrth i ni ddysgu byw gyda'r feirws ac anelu at fyd wedi'r pandemig. Er mwyn helpu i ddatblygu ein syniadau ar gyfer y strategaeth ac, yn y cyfnod interim, gofynnwyd nifer o gwestiynau i'n preswylwyr ymgysylltiedig i ganfod a oeddent yn barod ac yn hapus i gyfarfod o bell.





### A FYDDECH YN HAPUS I DREIALU CYFARFODYDD RHITHWIR NEU O BELL AR-LEIN YN Y CYFAMSER?

Roedd dros **53**% o'r trigolion yn barod i roi cynnig ar gyfarfodydd o bell. Er mwyn canfod a oedd gan breswylwyr fynediad at ddyfeisiau i gymryd rhan, gofynnwyd i drigolion a oedd ganddynt ddiddordeb mewn benthyca dyfais i gymryd rhan.





### A FYDDAI GENNYCH DDIDDORDEB MEWN BENTHYCA DYFAIS I GYMRYD RHAN MEWN CYFARFODYDD?

Dywedodd **95**% nad oeddent am fenthyg dyfais. Ceisiwyd canfod ymhellach a oedd gan breswylwyr fynediad i'r rhyngrwyd ac a fyddai hyn yn rhwystr i gyfranogiad.




## OES GENNYCH CHI FYNEDIAD AT Y RHYNGRWYD?

Roedd gan ychydig dros **63**% fynediad i'r rhyngrwyd y byddai angen cymorth ar y gweddill i gael mynediad i'r rhyngrwyd a byddai'n arwain at gostau ychwanegol. Mater ychwanegol i'w ystyried yw a oedd y sgiliau gan denantiaid a oedd yn cymryd i allu cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell.




## A YDYCH YN PRYDERU A YW'R SGILIAU CYWIR SYDD EU HANGEN GENNYCH I GYMRYD RHAN O BELL MEWN CYFARFODYDD?

Roedd dros **30%** yn pryderu nad oedd y sgiliau cywir i gymryd rhan ganddynt. Pan ofynnwyd a fyddai gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddiddordeb mewn hyfforddiant i'w helpu i fynd ar-lein, dywedodd dros **45**% y byddai. Un cwestiwn olaf a ofynnwyd oedd, pe bai gan y tenantiaid fynediad i gyfrifiadur, a fyddent yn gwybod sut i ddefnyddio platfform Microsoft Teams? Na oedd ateb **78**%.

Roedd y sylweddoliad hwn yn dangos bod angen cymorth i sicrhau cyfranogiad digidol p'un a oedd hynny'n golygu darparu hyfforddiant, cit neu fynediad i'r rhyngrwyd – roedd yn amlwg drwy adborth y tenantiaid fod angen i'r strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid newydd wneud darpariaeth ar gyfer Cyfranogiad digidol gan Denantiaidl. I'r perwyl hwn, mae nifer o gamau gweithredu wedi'u rhestru yn y cynllun gweithredu i symud cyfranogiad tenantiaid yn ddigidol yn ei flaen dros y 3 blynedd nesaf.

# PROFFILIO TENANTIAID

## Er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd ymagwedd Tenantiaid yn gyntaf ac yn rhoi tenantiaid wrth wraidd y gwaith a wnawn, mae'n allweddol ein bod yn dod i wybod pwy yw ein tenantiaid, beth yw eu hanghenion, y dulliau cysylltu sy'n well ganddynt a pha gymorth sydd ei angen arnynt.

I wneud hyn, rydym wedi cymryd y camau cyntaf i gychwyn rhaglen Proffilio Tenantiaid a fydd yn rhedeg yn ystod y strategaeth newydd hon mewn tri cham. Y nod yw cael y data diweddaraf gan ein tenantiaid i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â RhDDC (GDPR) a hefyd i edrych yn gynhwysfawr ar anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth fel y gallwn gynllunio ein gwasanaethau'n fwy effeithiol

**Mae ein cam cyntaf** wedi bod yn ymwneud â chreu'r diwylliant cywir, gan ystyried y wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu, adolygu'r hyn sydd gennym eisoes, pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnom a dechrau deall hynny, i fwydo hynny i mewn i'r strategaeth hon a'r gwaith yr ydym yn ei wneud dros y 3 blynedd nesaf.


**Bydd ein cam dau** yn ymwneud â throi'r data a gasglwn yn ddirnadaeth a fydd yn helpu i egluro disgwyliadau, anghenion ac yn llywio newid.

**Bydd cam tri** yn ymwneud â gwerthuso ac ystyried y camau nesaf.

BLOCIAU ADEILADU MEWNWELEDIAD TENANTIAID




PROFFILIO V MEWNWELEDIAD?



O'r data rydym wedi'i gasglu i ddechrau, rydym wedi gofyn cwestiynau penodol yn ymwneud â CT ac a yw tenantiaid yn ymwybodol o weithgareddau CT ac a hoffent gymryd rhan a sut yn ogystal ag a fyddent yn fodlon cymryd rhan wrth symud ymlaen - dyma gipolwg cychwynnol o'r adborth

PAN OFYNNWYD:

**A ydych chi'n gwybod bod sawl ffordd o gymryd rhan er mwyn dylanwadu ar wasanaethau?**

- Dim ond **32.84**% o'r bobl y buom yn siarad â hwy oedd yn gwybod hynny
- Nid oedd **67.16**% yn gwybod y gallent gymryd rhan a dylanwadu a siapio'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

**A fyddai gennych ddiddordeb mewn rhannu eich barn drwy fynychu cyfarfodydd**

- Dwedodd **83.58**% na a
- dwedodd **16.42**% y byddai

**A fyddai gennych ddiddordeb i rannu eich barn dros y ffôn?**

- Dwedodd **50.75**% na a
- dwedodd **49.25**% y byddai

**A fyddai gennych ddiddordeb i rannu eich barn ar-lein?**

- Dwedodd **80.30**% na a
- dwedodd **19.70**% y byddai

Er mai dim ond sampl bach o'r ymatebion a gawsom hyd yma yw hwn - Mae'n amlwg o hyn fod angen i ni wneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth o'n cyfleoedd i gymryd rhan ac mae awydd gan breswylwyr i gymryd rhan i'w ganfod yn rhywfaint o'r gwaith hwn. Unwaith eto, bydd y camau a osodir yng nghynllun gweithredu'r strategaeth yn ein helpu i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

# FFRAMWEITHIAU PRESENNOL AR GYFER YMGYSYLLTU

### AR HYN O BRYD MAE AMRYWIAETH O FFYRDD Y GALL TENANTIAID GYMRYD RHAN A GALLANT FOD YN RHAN O'N STRWYTHUR CYNNWYS FFURFIOL, MAE'R STRWYTHUR HWNNW'N CYNNWYS RHAI O'R GRWPIAU CANLYNOL

- **GRWPIAU TENANTIAID A PHRESWYLWYR -**
  Mae gennym dros 60 o denantiaid yn cymryd rhan reolaidd wrth drafod materion lleol ar ystadau ac yn eu cymunedau, gan gynnwys amodau ystadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfleusterau, parcio a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar y newidiadau ymarferol y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

- **GWEITHGOR CARTREFI'R FRO -**
  Yn cynnwys tua 15 o denantiaid, sy'n grŵp ymbarél o denantiaid o grwpiau preswylwyr gwahanol sy'n cwrdd ac yn ystyried materion strategol sydd ag effaith ar y gwasanaeth tai e.e. polisïau newydd, perfformiad, gwasanaethau newydd ac ati

- **Y FFORWM DYLUNIO ANSAWDD (FFDA/QDF) -**
  Fforwm Dylunio Ansawdd - Yn cynnwys 6 tenant sy'n goruchwylio rhaglen cynnal a chadw Safonau Ansawdd Tai Cymru a gwaith a phrojectau mwy eu maint

- **FFORWM TAI GWARCHOD -**
  Yn cynnwys preswylwyr o gynlluniau tai gwarchod Cartrefi'r Fro

- **GRŴP CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU -**
  Yn cynnwys 4 aelod tenant ac uwch aelodau staff Tai a Chynghorwyr sy'n adolygu perfformiad ac yn ystyried cynigion/syniadau newydd

- **GRŴP GŴYL -**
  Yn grŵp blynyddol a gynullwyd i drefnu'r digwyddiad Gŵyl blynyddol sy'n cynnwys staff a thenantiaid

### MAE YNA HEFYD NIFER O FFYRDD ANFFURFIOL Y GALL PRESWYLWYR GYMRYD RHAN HEFYD SY'N CYNNWYS:

- **TEITHIAU YSTADAU -**
  Mae mynd ar deithiau o amgylch ystadau yn rhoi cyfle i denantiaid weithio gyda'u Rheolwr Cymdogaeth a phartneriaid o asiantaethau eraill er mwyn gwneud ystadau'n llefydd gwell i fyw ynddynt.

- **AROLWG/GRWPIAU FFOCWS -**

  Mae grwpiau'n cael eu cynnull at ddibenion penodol gan gynnwys cydgysylltu arolwg ar raddfa fawr o'r tenantiaid i'w cael i ddweud eu dweud.

- **DIGWYDDIADAU/GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL -**

  Maent yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynnig gwybodaeth am y gwasanaeth tai, gan hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a chynyddu rhyngweithio cymdeithasol.

- **YMGYNGHORI UNIGOL -**

  Mae unigolion yn cynnig adborth gwerthfawr drwy lenwi arolygon boddhad, cymryd rhan mewn arolygon dros y ffôn, cynnig sylwadau/cwynion ac ati.

Mae'r strwythurau ffurfiol a'r rhai anffurfiol wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd, fel rhan o'r strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid hon byddwn yn ceisio adeiladu adolygiad o'r strwythurau presennol yn rhan ohono.

Er bod Bro Morgannwg yn cymryd gofal mawr i sicrhau ei fod yn darparu cartrefi diogel a chyfforddus, rydym yn awyddus i sicrhau bod modd clywed pryderon ein tenantiaid. Yn dilyn y digwyddiadau yng Nhŵr Grenfell, mae Cartrefi'r Fro yn awyddus i sicrhau bod gwaith diogelwch adeiladu yn cael ei nodi a'i weithredu'n briodol. Er bod gan y Cyngor sawl mecanwaith ar waith i adolygu diogelwch adeiladau, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd clywed profiadau ein tenantiaid sy'n rhoi mwy o ddealltwriaeth o sut mae adeiladau'n gweithredu mewn gwirionedd yn hytrach na sut rydym yn teimlo y dylent weithredu.

**I'r perwyl hwn, fel rhan o'r strategaeth newydd hon byddwn yn adeiladu dau opsiwn arall ar gyfer craffu gan denantiaid - hynny yw, cyflwyno Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau a Siopwyr Dirgel.**

- **BYDD ASESWYR ANSAWDD GWASANAETHAU – YN GWEITHREDU FEL FFRINDIAU BEIRNIADOL -**

A fydd yn helpu i graffu ar y gwasanaethau a ddarparwn, gan edrych ar, a herio Pam, Ble, Sut a Phryd y cânt eu darparu. Byddwn yn ceisio argymhellion ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, ac argymhellion ar y newidiadau sydd eu hangen. Bydd hyn yn allweddol i alluogi staff Cartrefi'r Fro i ddarparu gwell gwasanaethau i'n tenantiaid, gan ddarparu Gwerth am Arian a'u cyflwyno mewn modd amserol.

- **BYDD SIOPWYR DIRGEL -**

Yn cwblhau ymarferion "Siopa Dirgel" o bryd i'w gilydd ar wasanaethau o fewn yr adran dai - bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu safonau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau.

# CYMORTH ARIANNOL

## Mae'r Cynllun Busnes Tai yn nodi ymrwymiad sylweddol y Cyngor i ariannu ymgysylltu â thenantiaid.

- Caiff dros **£37,000** ei gynnig i grwpiau tenantiaid ffurfiol bob blwyddyn er mwyn cefnogi'r gweithgareddau a'r gost o'u cynnal;
- Gwnaed ymrwymiadau refeniw i benodi prentis buddsoddi cymunedol newydd a fydd yn cefnogi gwaith y strategaeth cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid
- Mae'r ddau Uwch Reolwr Cymdogaeth, y ddau Swyddog Buddsoddi ac Ymgysylltu Cymunedol a'r Uwch Swyddog Cyswllt Tenantiaid yn rhan greiddiol o'r gweithgor trawsadrannol mewnol a fydd yn llywio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon
- Ymrwymiad i sicrhau hyd at 3 aelod o staff drwy gynllun Kick Start llywodraeth San Steffan er mwyn helpu i gefnogi a dechrau'r rhaglen proffilio tenantiaid.
- Mae cyllidebau cyfranogol o **£10,000** y flwyddyn ar gyfer cynlluniau llai a arweinir gan breswylwyr ym mhob un o'r 4 ardal rheoli cymdogaeth (cyfanswm o **£40,000**) ar gael
- Dyrennir **£20,000** ychwanegol i 2 Uwch Reolwr Cymdogaeth i gefnogi unrhyw waith ychwanegol sydd ei angen ac yn olaf
- Cefnogir y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid gan y gyllideb Buddsoddi ac Ymgysylltu â'r Gymuned gyda **£5,000** yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i faterion ymgysylltu Tenantiaid a Lesddeiliaid

Yn gyffredinol, bydd cyllideb o £107,000.00 yn cael ei dyrannu'n uniongyrchol i waith ymgysylltu Tenantiaid a Lesddeiliaid fesul blwyddyn i gyflawni'r weledigaeth a'r camau cysylltiedig sydd ynghlwm â'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid newydd hon - ac eithrio costau staffio.

Er mwyn sicrhau gwerth am arian - caiff y gyllideb ei monitro a'i hadrodd arni yn y gweithgor staff mewnol a'r Gweithgor Tenantiaid allanol a arweinir gan Denantiaid.

# AMCANION

Ar ôl cynnal yr adolygiad, ystyried arfer da a rhai newydd sy'n dod i'r amlwg, ac adolygu adborth tenantiaid, rydym wedi dod i'r casgliad mai dyma ddylai weledigaeth Cartrefi'r Fro fod:

> **"Creu diwylliant lle rydym yn datblygu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i denantiaid a lesddeiliaid gyfrannu at greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid a lesddeiliaid."**

Mae'r weledigaeth hon yn gryno yn crynhoi'r hyn y mae Cartrefi'r Fro yn anelu at ei gyflawni ar gyfer ei Denantiaid a'i Lesddeiliaid.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth sydd gennym; datblygu tair thema allweddol ac un thema gyffredinol, bydd y themâu hyn yn grwpio ynghyd y gwaith rydym yn edrych i'w ddatblygu dros y 3 blynedd nesaf.

### Y THEMÂU HYN YW:

## GYNNWYS

I **GYNNWYS** ein Tenantiaid a'n Lesddeiliaid i weithio i gyd-greu a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar Denantiaid a Lesddeiliaid sy'n ystyrlon ac sy'n cynnig gwerth am arian

## FUDDSODDI

I **FUDDSODDI** mewn staff ac adnoddau ariannol i alluogi datblygu gwasanaethau a yrrir gan Denantiaid a Lesddeiliaid

## DDYLANWADU AR

I gefnogi Tenantiaid a Lesddeiliaid er mwyn helpu i **DDYLANWADU AR** a llunio gwasanaethau, prosiectau a mentrau cyfredol o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth ac i helpu Tenantiaid a Lesddeiliaid i wireddu eu potensial

Yn ogystal â hyn, ein thema gyffredinol yw:

## WRANDO A GWERTHFAWROGI

I bobl **WRANDO A GWERTHFAWROGI,** wrth sicrhau bod ein Tenantiaid a'n Lesddeiliaid yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi ac y gwrandewir arni, byddwn yn gweithredu mewn modd gwelliant parhaus, yn dysgu gwersi drwy gynnwys adolygiadau a rhoi adborth i'n defnyddwyr gwasanaeth

Yn sail i'r themâu lefel uchel hyn mae tri sbardun sy'n deillio o adborth arolwg boddhad STAR a oedd yn cynnwys:

- yr angen i'r sefydliad wrando a gweithredu ar farn ein Tenantiaid a
- yr angen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Denantiaid a
- yr angen i barhau i sicrhau cynnydd mewn boddhad cyffredinol gyda gwasanaethau Cartrefi'r Fro

Caiff y strategaeth hon ei mesur gan y tri dangosydd hyn a'i hategu gan Gynllun Gweithredu cynhwysfawr.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cwmpasu camau gweithredu staff mewnol i barhau i ymgorffori newid diwylliannol, camau gweithredu cefnogol allanol a fydd yn helpu i ymgysylltu ac i wireddu ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid yng Nghartrefi'r Fro.

## Gwireddu ein Gweledigaeth a'n Gweithredoedd a'n Hamcanion –

### Cynllun Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid 2021 - 2024

Mae ein Cynllun Gweithredu cynhwysfawr yn nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni, pryd a chan bwy.  Adroddir ar y Cynllun Gweithredu bob chwarter yn y Gweithgor Staff mewnol, y Gweithgor Tenantiaid a'r Grŵp Craffu Tai yn ôl y gofyn.



"EIN THEMA GYFFREDINOL YW: I BOBL WRANDO A GWERTHFAWROGI, WRTH SICRHAU BOD EIN TENANTIAID A'N LESDDEILIAID YN TEIMLO BOD EU BARN YN CAEL EI GWERTHFAWROGI AC Y GWRANDEWIR ARNI."

# AMCAN 1

## I CYNNWYS EIN TENANTIAID A'N LESDDEILIAID I GYD-GREU A DATBLYGU GWASANAETHAU SY'N YSTYRLON AC SY'N CYNNIG GWERTH AM ARIAN

| Rhif Cam | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CAMAU GWEITHREDU NEWID DIWYLLIANNOL STAFF MEWNOL** | | | | | |
| 1.1 | Datblygu a lansio gweithgor Trawsadrannol Tai mewnol i arwain a monitro'r strategaeth ar gyfer cyflawni cynllun gweithredu | Mae gan bob adran gydberchnogaeth o strategaeth CT | Uwch Reolwr a Enwir (Buddsoddiad Cymunedol + Pobl Hŷn) | Ebrill 2022 | | |
| 1.2 | Gweithgor i roi adborth i adrannau mewnol ar newidiadau a wnaed yn dilyn camau gweithredu cynnwys Tenantiaid - ar ffurf diweddariad blynyddol o'r enw "Tenantiaid a Lesddeiliad, fe ddwedoch chi - fe wnaethom ni", dangos effaith a phwysigrwydd cymryd rhan. | Gwerth ac effaith CT i'w arddangos i bob gwasanaeth | Gweithgor Tai | Rhag 2022<br>Rhag 2023<br>Rhag 2024 | | |
| 1.3 | Sicrhau bod data Tenantiaid yn cael ei ddiweddaru yn unol â RhDDC (GDPR) - datblygu prosiect proffilio/mewnwelediad tenantiaid. Gan ddefnyddio data llinell sylfaen dros y 3 blynedd nesafs adrodd yn flynyddol ar y cynnydd yn y data a gesglir | Yn cydymffurfio o ran RhDDC drwy gadw data tenantiaid cyfredol cywir | Uwch Reolwr a Enwir (BC) | Mai 2022<br>Mai 2023<br>Mai 2024 | | |
| 1.4 | Rhwng 2021 - 2024 datblygu 3 phrosiect drwy ddefnyddio data a gafwyd o broffilio/mewnweledìad tenantiaid i wella gwasanaethau a gwneud penderfyniadau busnes | Prosiectau a ddatblygwyd a'u cyflawni yn seiliedig ar anghenion a fynegwyd gan denantiaid gan arwain at fwy o foddhad cwsmeriaid | Tîm Cyfoethogi Cymunedau | Ebrill 2024 | | |
| | **CAMAU I HYRWYDDO MWY O GYFRANOGIAD** | | | | | |
| 1.5 | Deall drwy'r ymarfer Proffilio Tenantiaid faint o ddiddordeb sydd mewn cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid a'r hyn y mae tenantiaid ei eisiau – dilyn hyn gyda chamau gweithredu clir. | Cynllun gweithredu ar waith i drosi diddordeb yn ymgysylltiad a chynyddu nifer y tenantiaid newydd sy'n ymgysylltu | Gweithgor Tai | Medi 2022 | | |
| 1.6 | Datblygu tudalen we bwrpasol ar ymgysylltiad sy'n ymwneud â Thenantiaid a Lesddeiliaid sy'n manylu ar sut i gymryd rhan, pwy i gysylltu â nhw i fynd am ragor o wybodaeth. | Rhoi eglurder i Denantiaid ar sut y gallant gymryd rhan - yn haws i denantiaid gymryd rhan. | Uwch Reolwr a Enwir (BC) a Swyddog STL | Rhagfyr 2022 | | |
| 1.7 | Datblygu bwydlen o opsiynau lle caiff rhwystrau i Denantiaid a Lesddeiliaid gymryd rhan eu lleihau, sy'n cwmpasu cyfranogiad "anffurfiol" a "ffurfiol", sy'n cynnwys cymysgedd o ymgysylltu wyneb yn wyneb ac o bell lle gall preswylwyr "bigo i mewn ac allan" | Amrywiaeth clir o opsiynau sydd ar gael i'r holl breswylwyr gymryd rhan - yn haws i denantiaid gymryd rhan. | Gweithgor Tai | Mehefin 2022 | | |
| 1.8 | Datblygu cyfres o daflenni sy'n rhoi manylion ynghylch sut mae Tenantiaid a Lesddeiliaid yn gallu cymryd rhan a sicrhau bod gan bob adran fynediad i'r wybodaeth hon | Gwybodaeth bapur ac electronig ar gael i'r holl breswylwyr os oes angen - yn haws i denantiaid gymryd rhan. | Timau hyn Rheolwyr a Enwir | Mehefin 2022 | | |

| Rhif Cam | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.9 | Sicrhau bod y Llawlyfr Tenantiaid yn cynnwys manylion strwythurau cynnwys gan gynnig eglurder i bob tenant newydd ar sut i gymryd rhan | Mae tenantiaid newydd yn glir ar sut i gymryd rhan ar ddechrau eu tenantiaeth - yn haws i denantiaid gymryd rhan. | Arweinydd Tai a Phrosiectau Strategol | Mehefin 2023 | | |
| 1.10 | Gan ddefnyddio data a gesglir gan grŵp tenantiaid ymgysylltiedig a data gan Denantiaid ynghylch mynediad i'r rhyngrwyd, sicrhau fod gan y strwythur newydd ffyrdd newydd o ymgysylltu sy'n cynnwys cyfryngau cymdeithasol/ymgysylltu digidol. | Ffyrdd traddodiadol a newydd o gymryd rhan sy'n hygyrch i bawb mewn amser go iawn - yn haws i Denantiaid gymryd rhan. | Gweithgor Tai | Rhagfyr 2022 | | |
| 1.11 | Gweithio gyda'r tîm Buddsoddi Cymunedol datblygu fforwm Pobl Iau'r Fro Gyfan | Opsiynau sydd ar gael i leisiau a syniadau pobl iau gael eu clywed ac yn haws iddynt gymryd rhan. | Tîm Cyfoethogi Cymunedau | Ebrill 2023 | | |
| 1.12 | Ceisio 4 enwebiad y flwyddyn o bob ardal gan Reolwyr Tai (Rheolwr a Enwir) i denantiaid o oedran gweithio a datblygu gweithgor tenantiaid o oedran gweithio newydd. | Y Rheolwyr a Enwir wedi buddsoddi ac â pherchnogaeth dros gyfeirio tenantiaid newydd at weithgareddau cynnwys - mwy o denantiaid yn cymryd rhan | Cymdogaeth Rheolwyr | Mai 2022 | | |
| 1.13 | Gweithio'n agos gyda'r Gweithgor Tenantiaid a'r Fforwm Dylunio Ansawdd a datblygu rhaglen o lysgenhadon a fydd yn helpu i fentora'r gweithgor Tenantiaid newydd yn eu rolau. | Aelodau newydd yn derbyn cefnogaeth aelodau hŷn yn rhannu eu gwybodaeth ddealledig – gwell canlyniadau CT. | Uwch Reolwr A Enwir (BC) ac Uwch Swyddog Tenantiaid a Lesddeiliaid | Medi 2022 | | |
| 1.14 | Lansio Panel craffu newydd dan arweiniad tenantiaid o'r enw "Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau" (AAG/SQA) a fydd yn cynnal adolygiadau gwasanaeth ac ymarferion siopa dirgel. | Bydd cloddio'n ddwfn i'r craffu o dan arweiniad tenantiaid yn arwain at wella'r modd y darperir gwasanaethau - Tenantiaid gwybodus | Swyddog Buddsoddi Cymunedol ac Ymgysylltu (E-arweinydd) | Ebrill 2022 | | |
| 1.15 | Cynhyrchu diweddariadau rheolaidd i denantiaid drwy gylchlythyrau ddwy waith y flwyddyn - (Cylchlythyr Cymdogaeth/Cynllun) | Tenantiaid yn cael eu diweddaru gyda datblygiadau yn eu hardaloedd lleol ac ynghylch materion tai - Tenantiaid gwybodus | Rheolwyr a Enwir ac Uwch Reolwyr. | December 2022 | | |
| 1.16 | Cynhyrchu un cylchlythyr Cartrefi'r Fro blynyddol i bob tenant sy'n ymdrin â chyflawniadau a chanlyniadau blynyddol ac effaith gweithgareddau cynnwys | Rhoddir gwybod i denantiaid am ganlyniadau blynyddol ac mae ganddynt drosolwg o weithgareddau'r blynyddoedd i ddod. | Pennaeth gwasanaeth gydag Uwch reolwyr | Rhag 2022<br>Rhag 2023<br>Rhag 2024 | | |
| 1.17 | Datblygu a lansio fforwm lesddeiliad newydd - hwyluso cyfranogiad lesddeiliaid mewn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu statudol sy'n seiliedig ar wasanaethau. | Gwell ymgysylltiad/boddhad lesddeiliaid | Swyddog Lesddeiliaid | Medi 2022 | | |
| 1.18 | Sicrhau bod yr FfDA yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adeiladu sicrwydd diogelwch drwy greu sianeli effeithiol i gwestiynu a newid - gan ystyried gwersi Grenfell | Tenantiaid yn cyfrannu at sicrwydd iechyd a diogelwch | Fforwm Ansawdd Dylunio | Rhagfyr 2024 | | |

# AMCAN 2

## I FUDDSODDI ADNODDAU ER MWYN HELPU I LUNIO GWASANAETHAU O ANSAWDD UCHEL

| Rhif Cam | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **BUDDSODDIAD STAFF MEWNOL – CAMAU GWEITHREDU NEWID DIWYLLIANNOL** | | | | | |
| 2.1 | Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ar CT ar gyfer yr holl aelodau staff presennol ar strategaeth ymgysylltu newydd Cartrefi'r Fro i Denantiaid a Lesddeiliaid Newydd - Rhoi eglurder ar rolau aelodau staff a'r seilwaith ymgysylltu newydd | Cytundeb gan y staff ac ymwybyddiaeth o'u rolau o fewn CT | Timau hyn Rheolwyr a Enwir | Medi 2022 | | |
| 2.2 | Gan ddefnyddio rhaglen hyfforddi CT sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant fel rhan o'u cyfnod sefydlu. | Staff newydd yn glir am eu rolau o ran CT ar ddechrau eu penodiad | Uwch Reolwyr a Pennaeth Gwasanaeth | Medi 2022 | | |
| 2.3 | Cryfhau'r broses cynnwys Tenantiaid a Lesddeiliaid presennol gan greu arweinwyr clir ar gyfer pob un o'r ymyriadau cynnwys Tenantiaid, gan gynnwys Swyddogion Buddsoddi/ Cynnwys Cymunedol – Swyddogion/ Rheolwyr Tai ac Uwch Swyddog Cyswllt Tenantiaid sy'n darparu trefn ddi-dor a chydgysylltiedig | Perchnogaeth a rennir dros CT ar draws y gyfarwyddiaeth – swyddogion cyfrifol yn arwain eu priod feysydd | Gweithgor Tai | Gorffennaf 2022 | | |
| 2.4 | Gan ddefnyddio'r grŵp Tenantiaid a Lesddeiliaid mewnol, datblygu aliniad â'r Swyddogion Buddsoddi Cymunedol a'r Rheolwyr a Enwir er mwyn sicrhau'r allbwn mwyaf posibl o waith y Swyddogion Tenantiaid a Lesddeiliaid. 2 ddarn o waith ar y cyd i'w gyflawni | Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig a lleihau'r gweithio mewn seilo | Gweithgor Tai | Mawrth 2023 | | |
| 2.5 | Bydd y gyllideb o £107,000.00 yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid. | Eglurder ar y gyllideb a ddarperir i denantiaid ac aelodau staff i allu mesur gwerth am arian a sefydlu llinell sylfaen costau ar gyfer gweithgarwch cynnwys | Gweithgor Tai | Mai 2022 | | |
| 2.6 | Recriwtio 3 Swyddog Kickstart i ymgymryd â'r gwaith Proffilio Tenantiaid. | Tynnu ar adnoddau i gefnogi Proffilio Tenantiaid a chreu diwylliant o gasglu'r data diweddaraf | Uwch Reolwr a Enwir (BC + Pobl Hŷn) | Ebrill 2022 | | |
| 2.7 | Recriwtio Prentis Buddsoddi Cymunedol i gefnogi gwaith alinio a chyfathrebu gyda'r tîm Buddsoddi Cymunedol - Rheoli Tai a Chyswllt Tenantiaid. | Adnoddau i gefnogi gweithgareddau CT ychwanegol drwy Brentis BC | Uwch Reolwr a Enwir (BC + Pobl Hŷn) | Medi 2022 | | |
| 2.8 | Manteisioh ar aelodaeth flynyddol o TPAS Cymru- drwy sicrhau bod pob aelod o staff tai yn ymgymryd â hyfforddiant trosolwg GCCT. | Staff a thenantiaid mwy gwybodus yn dilyn y mynediad a'r cymorth sydd ar gael drwy aelodaeth flynyddol i Staff a Thenantiaid | Gweithgor Tai | Mawrth 2024 | | |
| 2.9 | Sicrhau bod Rheolwyr Tai yn ymuno â'r bwletin GCCT ac yn mynychu hyfforddiant perthnasol. | Staff a Thenantiaid sydd wedi'u hyfforddi'n well ar ôl cael hyfforddiant am ddim ac am bris gostyngol i staff a thenantiaid | Gweithgor Tai | Mehefin 2022 | | |

| Rhif Cam | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymryd camau i fuddsoddi mewn Tenantiaid a Lesddeiliad** | | | | | | |
| 2.10 | Dadansoddi a chynnal adolygiad llawn o effeithiolrwydd strwythurau presennol CT gan ddefnyddio'r adborth gan:<br>• y grwpiau presennol ac<br>• o'r ymarfer Proffilio Tenantiaid<br>cytuno a gweithredu'r strwythur newydd | Mae'r strwythurau CT yn addas i'r diben ar gyfer cyflawni strategaeth CT newydd 2021 - 2024 | Gweithgor Tai | Ionawr 2023 | | |
| 2.11 | Cynnal adolygiad o'r Cyfamod Tenantiaid presennol o fewn y 12 mis nesaf – mae'r cyfamod yn cynnig cymorth ariannol i grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr. Y grŵp adolygu i sicrhau ei fod yn addas i'r diben wrth symud ymlaen | Mae'r Cyfamod yn addas i'r diben ar gyfer cyflawni strategaeth CT newydd 2021 - 2024 | Gweithgor Tai | Medi 2022 | | |
| 2.12 | Lansio'r Cyfamod Tenantiaid newydd a chodi ymwybyddiaeth ymhlith Staff, Tenantiaid a Lesddeiliaid. | Tenantiaid a Lesddeiliaid yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael drwy'r Cyfamod ac yn mynd ati i fanteisio arno. | Gweithgor Tai | Ionawr 2023 | | |
| 2.13 | Tîm Buddsoddi Cymunedol i gefnogi grwpiau cyfredol gyda mentrau Cynhwysiant Digidol gan gynnig cymorth i fynd ar-lein - datblygu sgiliau i gofleidio technoleg newydd i ddechrau cyfarfodydd o bell | Staff a Thenantiaid sydd â'r gallu i gofleidio technoleg ddigidol i gynnig CT mewn ffyrdd newydd ac arloesol | Tîm CT | Mehefin 2022 | | |
| 2.14 | Gan ddefnyddio rôl y Prentis Buddsoddi Cymunedol cynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd Cynnwys Tenantiaid. | Carfan fwy o drigolion ymgysylltiol | BC<br>Prentis | Ionawr 2023 | | |
| 2.15 | Sicrhau bod tenantiaid sy'n cymryd rhan mewn strwythurau cynnwys Tenantiaid a Lesddeiliaid mwy ffurfiol yn cael cynnig trosolwg sefydlu/hyfforddi am y broses CT yn y Fro gan sicrhau eu bod yn deall eu rolau. | Tenantiaid a Lesddeiliaid wedi'u hyfforddi a'u cefnogi yn eu rolau. | Gweithgor Tai | Parhaus | | |
| 2.16 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion a Lesddeiliaid sy'n ymgysylltu am hyfforddiant a chymorth TPAS Cymru sydd ar gael. | Tenantiaid hyfforddedig, hyderus ac wedi eu cefnogi yn ymwneud â chyfranogiad | Gweithgor Tai | Parhaus | | |
| 2.17 | Gan ddefnyddio Proffilio Tenantiaid datblygu dau brosiect sy'n gysylltiedig â data mewnweledіad er mwyn helpu i dargedu grwpiau nad ydynt yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd. | Ystod amrywiol o denantiaid yn cymryd rhan | Gweithgor Tai | Ionawr 2023 | | |
| 2.18 | Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig i Denantiaid unigol wella cyflogadwyedd a sgiliau drwy'r rhaglen Opportunity Knocks | Tenantiaid yn cael eu cefnogi'n gyfannol i wella rhagolygon cyflogaeth | Tîm BC | Parhaus | | |

# AMCAN 3

## I GEFNOGI TENANTIAID A LESDDEILIAID I HELPU I DDYLANWADU AR A LLUNIO GWASANAETHAU, PROSIECTAU A MENTRAU CYFREDOL O SAFBWYNT DEFNYDDWYR GWASANAETH

Vale Homes Safe in our hands
Cartrefi'r Fro Diogel yn ein dwylo

| Rhif Cam. | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DYLANWAD STAFF MEWNOL – CAMAU GWEITHREDU NEWID DIWYLLIANNOL** | | | | | |
| 3.1 | Ar ôl cwblhau arolwg Star cynnig sesiwn mewnwelediad i bob tîm tai ar ganlyniadau arolwg Boddhad Star, sicrhau bod aelodau'r staff yn deall y meysydd canlyniadau allweddol y mae angen i ni wella arnynt. | Staff yn glir ar feysydd allweddol i'w gwella | Pennaeth Tai | Dwywaith y flwyddyn | | |
| 3.2 | Pob rheolwr i sicrhau bod diweddariadau Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid gan y Gweithgor yn cael eu bwydo i gyfarfodydd tîm. | Staff yn glir ar ddatblygiadau o ran gwaith Cyfranogiad Tenantiaid | Gweithgor Tai | Parhaus | | |
| 3.3 | Tîm Buddsoddi Cymunedol i arwain y gwaith o ddatblygu gwaith craffu ar ffurf Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau | Sefydlu arweinwyr ac ymrwymiad clir i waith craffu Tenantiaid | Tîm BC | Mehefin 2022 | | |
| 3.4 | Monitro cwynion rhannu data gydag Aseswyr Ansawdd y Gwasanaeth i nodi meysydd gwasanaeth y mae angen eu hadolygu a neu siopa dirgel | Mynd i'r afael â'r meysydd cwyno uchaf i wella gwasanaeth lle mae'r angen mwyaf | Buddsoddi Cymunedol a Swyddog ymgysylltu (E-arweinydd) | Ebrill 2023 | | |
| | **CAMAU I HELPU TENANTIAID A LESDDEILIAID I DDYLANWADU AR BENDERFYNIADAU** | | | | | |
| 3.5 | Cynnig cyfle i denantiaid fod yn rhan o'r gwasanaeth craffu: Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau" yn caniatáu i denantiaid wneud argymhellion ar welliannau. | Argymhellion gwella craffu yn rhai sy'n cael eu harwain gan denantiaid, yn ystyrlon ac yn arwain at newid gwasanaeth | Swyddog Buddsoddi Cymunedol ac Ymgysylltu (E-arweinydd) | Mai 2022 | | |
| 3.6 | Cynnig cyfle i lesddeiliaid fod yn rhan o'r fforwm lesddeiliaid chwemisol gan ganiatáu i lesddeiliaid wneud argymhellion ar welliannau. | Llais lesddeiliad yn cael ei "glywed" a'i gefnogi i ddylanwadu ar benderfyniadau | Swyddog Lesddeiliaid | Mawrth 2023 | | |
| 3.7 | Darparu opsiynau Tenantiaid o oedran gweithio i gymryd rhan mewn ymgynghoriad o bell drwy ddulliau digidol ac ymgymryd â 3 ymgynghoriad | Darparu opsiynau ar gyfer ymgysylltu digidol – y gellir eu cyrchu ar unrhyw adeg gan gynyddu cyfleoedd cyfranogi i bawb | Gweithgor tai | Ebrill 2022 - Ebrill 2025 | | |
| 3.8 | Gweithio gydag Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau i ymgymryd ag adolygiad o'r Llawlyfr Tenantiaid fel y prosiect craffu peilot cyntaf | Llawlyfr tenantiaid wedi'i gynhyrchu gydag adborth craffu | Nick Jones a'r Swyddog Buddsoddi Cymunedol ac Ymgysylltu (E-arweinydd) | Mai 2023 | | |

| Rhif Cam. | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.9 | Rheolwyr Tai i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â Thenantiaid a Lesddeiliaid lleol o ran Cynlluniau Gweithredu Cymdogaeth lleol a chyllidebau gwario ar ystadau | Cyfleoedd ymgysylltu sydd ar gael drwy Reolwyr a Enwir a gefnogir gan gyllidebau ariannol - mwy o Denantiaid yn ymgysylltu ar lefel leol | Rheolwyr a Enwir | Bob blwyddyn | | |
| 3.10 | Tîm Buddsoddi Cymunedol i roi cyfleoedd i drigolion ddweud eu dweud mewn prosiectau datblygu cymunedol ar ystadau lleol | Tenantiaid yn ymgysylltu ac yn teimlo yr ymgynghorir â hwy ac yn ymuno'n weithredol mewn prosiectau - tenantiaid mwy bodlon | Tîm BC | Ar ddechrau prosiectau newydd | | |
| 3.11 | Darparu cyfleoedd i Denantiaid a Lesddeiliaid fod yn rhan o'r panel golygyddol ar gyfer cylchlythyr blynyddol gan bennaeth y gwasanaeth. | Tenantiaid sy'n cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynhyrchu cyhoeddiad ac yn rhannu'r berchnogaeth drosto - tenantiaid mwy bodlon | Pennaeth Gwasanaeth | Hydref 2022 | | |
| 3.12 | Darparu cyfleoedd i Denantiaid fod yn rhan o'r ŵyl flynyddol – digwyddiad diwrnod hwyl grŵp cynllunio | Tenantiaid yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynhyrchu Gŵyl ac yn rhannu'r berchnogaeth drosti – tenantiaid mwy bodlon | Uwch Swyddog Tenantiaid a Lesddeiliaid | Bob blwyddyn | | |
| 3.13 | Datblygu Gweithgor Digidol tenantiaid dros dro a fydd yn helpu i ddatblygu hyrwyddwyr digidol tenantiaid ac yn arwain Cartrefi'r Fro ar sut i symud ymlaen gyda Chyfranogiad Digidol gan Denantiaid a Lesddeiliaid | Mwy o amrywiaeth o opsiynau umwneud drwy ddulliau digidol | Swyddog Buddsoddi Cymunedol ac Ymgysylltu (E-arweinydd)) | Hydref 2023 | | |

# AMCAN 4

### I **WRANDO A GWERTHFAWROGI**, AR FARN EIN TENANTIAID A LESDDEILIAID DRWY GYNNAL ADOLYGIADAU A RHOI ADBORTH.

| Rhif Cam. | Cam Gweithredu | Canlyniad a fwriedir | Yn Arwain | Dyddiad targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dylanwad Staff Mewnol – Camau Gweithredu Newid Diwylliannol** | | | | | | |
| 4.1 | Gweithgor mewnol Tenantiaid a Lesddeiliaid i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu ac ymrwymiadau a wneir yn y strategaeth yn cael eu cyflawni a'u hadrodd i staff mewnol o fewn y gyfarwyddiaeth dai a'u rhannu â Thenantiaid | Staff i weld gwerth, pwysigrwydd ac effaith y strategaeth - mwy o ymgysylltu â staff | Gweithgor tai | Mehefin 2022 - Mawrth 2025 | | |
| 4.2 | Monitro a sicrhau bod y ddau faes o arolwg boddhad STAR lle sicrhaodd Cartref'r Fro ganlyniadau isel yn gweld cynnydd fel rhan o strategaeth CT 2021 – 2024<br>1. yr angen i'r sefydliad wrando a gweithredu ar farn ein Tenantiaid<br>2. yr angen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Denantiaid<br>Gweld mwy o foddhad ers STAR 2019 | Cynnydd yn % y tenantiaid sy'n teimlo y gwrandewir ar eu barn ac y gweithredir arno<br>Cynnydd yn % y tenantiaid sy'n teimlo eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.<br>Cynnydd yn y boddhad cyffredinol % gyda Chartrefi'r Fro | Arweinydd Tai a Phrosiectau Strategol | Mehefin - 2022 Mehefin - 2024 | | |
| 4.3 | Gweithio gyda Housemark a parhau i gyflwyno data i feincnodi yn erbyn darparwyr tai ALI o faint tebyg i sicrhau ein bod yn cyrraedd y chwartel uchaf yn y ddau faes uchod. | Cartrefi'r Fro yn gweithredu mewn diwylliant o welliant parhaus | Arweinydd Tai a Phrosiectau Strategol | Ebril - 2022 Mawrth - 2025 | | |
| 4.4 | Gweithredu argymhellion gan AAG a mynd ar ôl hynny gyda gwasanaethau perthnasol a phob grŵp perthnasol arall o fewn y strwythur cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid | Caiff argymhellion tenantiaid eu mabwysiadu, eu bwydo'n ôl i wasanaethau a Thenantiaid - Tenantiaid drwy hynny yn teimlo bod eu barn wedi'i "chlywed" a bod y farn yn cael ei gwerthfawrogi. | Swyddog Buddsoddi Cymunedol ac Ymgysylltu (E-arweinydd) | Mehefin 2022 - Mawrth 2025 | | |
| **Camau i helpu Tenantiaid a Lesddeiliaid ddylanwadu ar benderfyniadau** | | | | | | |
| 4.5 | Sicrhau bod Tenantiaid a Lesddeiliaid yn cael y cyfle i barhau i gynnal arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr bob dwy flynedd er mwyn ysgogi gwelliannau mewn safonau | Cymharu data â blynyddoedd blaenorol a chymharu â chyfoedion sectorau eraill i wella perfformiad | Arweinydd Tai a Phrosiectau Strategol | 2022 a 2024 | | |
| 4.6 | Rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd ar ôl materion a nodwyd yn yr arolwg tenantiaid | Gweithredu ar adborth gan Denantiaid a Lesddeiliaid gan arwain at fwy o foddhad | Arweinydd Tai a Phrosiectau Strategol | Mai 2022 | | |
| 4.7 | Datblygu cyhoeddiad blynyddol "fe ddwedoch chi, fe wnaethon ni" i'w weld yn y cylchlythyr blynyddol sy'n manylu ar gamau gweithredu Tenantiaid a Lesddeiliaid rydym wedi'u cymryd yn dilyn adborth. | Adroddiad ar ba newidiadau rydym wedi'u gwneud yn dilyn adborth — a chynyddu cyfathrebu â thenantiaid a lesddeiliaid | Pennaeth Gwasanaeth | Rhag 2022<br>Rhag 2023<br>Rhag 2024 | | |
| 4.8 | Ymgymryd ag adolygiad o'r arolygon misol presennol (ar faterion penodol, Ymddygiad Gwerth-gymdeithasol, gosodiadau newydd er enghraifft), adrodd i'r AAGau, defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynllun gwaith ar gyfer AAGau - lle mae anfodlonrwydd dyna lle bydd yr AAGau yn canolbwyntio - | Yn gyffredinol, byddwn yn gweld cynnydd mewn boddhad yn y meysydd y craffwyd arnynt. | Swyddog Buddsoddi Cymunedol ac Ymgysylltu (E-arweinydd) a AAGau | Hydref - 2025 | | |

Vale Homes
Safe in our hands

Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG